

RHWYDWAITH

ADDYSG HEDDWCH

Pecyn Addysgu Heddwch

Cofio dros Heddwch

Nod: Annog plant i feddwl am effeithiau rhyfel ac ystyried ffyrdd o gofio er mwyn hyrwyddo heddwch.

Cynllunio/paratoi: Byddwch angen y cyflwyniad PwyntPŵer 'Cofio dros Heddwch' o wefan Rhwydwaith Addysg Heddwch.

www.peace-education.org.uk

Mae'r sgwariau oren yn y testun yn cyfeirio at y sleidiau yn y cyflwyniad hwn.

*Mae hwn yn wasanaeth defnyddiol ar gyfer CA2 a CA3.

1. Cofio rhyfel

Sleid 1: Llun o babau coch a gwyn

Heddiw byddwn yn siarad am sut yr ydym yn cofio rhyfel, a chofio er mwyn hyrwyddo heddwch.

Sleid 2: Yn 1918...

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben ar yr unfed-awr-ar-ddeg o'r unfed-dydd-ar-ddeg o'r unfed-mis-ar-ddeg (11 Tachwedd 1918). Dyma pryd y tawelodd y gynau. Ar y Dydd Cofio cyntaf, casglodd pobl ynghyd mewn dinasoedd, trefi a phentrefi er mwyn cofio am bob un a ymladdodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Sleid 3: Llun o wyneb cloc

Am 11 y bore ar 11 Tachwedd, ganrif yn ddiweddarach, rydym yn dal i gynnal dwy funud o dawelwch. *Holwch y plant:* Oes unrhyw un yma erioed wedi cymryd rhan yn y ddwy funud o dawelwch?

Does fawr ddim tawelwch yn ein byd. Mae sŵn o'n hamgylch ym mhobman. Mae tawelwch felly yn arbennig. Gall tawelwch ein helpu i stopio meddwl am yr hyn sy'n digwydd o'n hamgylch yn awr a rhoi amser i ni i fyfrio. *Holwch y plant:* Ond am beth yr ydym yn meddwl? Sut yr ydym yn teimlo?

Sleid 4: Bu 17,000,000 o bobl farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bu tua 17 miliwn o bobl farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n anodd dychmygu cynifer o



bobl. *Allwch chi ddychmygu 17 miliwn o bobl?* (Gellid cymharu y rhif hwn i nifer y disgyblion yn yr ysgol, poblogaeth y dref neu bentref neu seddau mewn stadiwm chwaraeon lleol.) Gofynnwch i'r disgyblion gyfrif yr eiliadau gyda'r cloc yn uchel. Ar ôl deg eiliad dywedwch wrthynt am stopio. Dywedwch wrthynt pe baent yn parhau i gyfrif i 17 miliwn, byddai'r dasg yn cymryd 187 o ddyddiau. (Cysylltwch hyn â'r calendr ysgol h.y. Nadolig flwyddyn nesaf neu gwyliau'r haf.)

Sleid 5: Cofebau i filwyr

Gofynnwch i'r plant beth yw'r lluniau hyn? Pwy sydd ynddynt? A fu unrhyw un arall farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf? (Gwragedd, plant, anifeiliaid ...)

2. Y lluoedd arfog a sifiliaid

Gofynnwch i tua 40% o'r plant i sefyll ar eu traed. Eglurwch iddynt fod y canran yma o'r 17 miliwn a fu farw yn sifiliaid (pobl nad oeddent yn filwyr). Gall y plant eistedd i lawr wedyn.

Gobeithiai pawb mai'r Rhyfel Byd Cyntaf fyddai'r 'rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel'. Ond cychwynnodd yr Ail Ryfel Byd ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Gofynnwch i'r plant a oedd yn sefyll i godi eto, yna gofynnwch i 25% ychwanegol i sefyll. Yn yr Ail Ryfel Byd dyma'r canran o sifiliaid a fu farw – 65%.

Gofynnwch i 25% arall i sefyll (dylai 90% fod yn sefyll yn awr.) Erbyn diwedd y ganrif ddiwethaf, roedd dros 90% o'r rhai a oedd yn marw mewn gwrthdaro arfog yn sifiliaid. (ffynhonnell: www.unicef.org/graca/patterns.htm).

Sleid 6: Siart dafellog yn arddangos canran marwolaethau milwyr / sifiliaid mewn rhyfeloedd Cododd canran y sifiliaid a laddwyd mewn rhyfel o 5% ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf i dros 90% yn rhyfeloedd y nawdegau.

Sleid 7: A yw'r cofebau a welsoch yn cynrychioli pawb a fu farw mewn rhyfel?

Mae nifer o'n cofebau rhyfel yn coffáu y milwyr a laddwyd mewn rhyfel, ond mae mathau eraill o gofebau.

3. Cofio dros heddwch

□ Sleid 8: Estyn dwylo dros y gwahanfur, Gogledd Iwerddon

Beth a feddylwch am hwn? Wrth fynd i mewn i dref Craigavon yng Ngogledd Iwerddon, tref a effeithiwyd gan flynyddoedd o wrthdaro treisgar, y peth cyntaf a welwch wrth groesi'r bont yw'r gofeb hon o ddau ddyn yn estyn allan i'w gilydd. *Holwch y plant:* Beth yw'r neges yma? Mae'n symbol o ysbryd cymodi a gobaiith i'r dyfodol.

□ Sleid 9: Cofeb i wrthwynebwyr cydwybodol

Ym Mhrydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, credai dros 10,000 o bobl na ddylent ddefnyddio trais, beth bynnag oedd y risg i'w bywydau. Fe'u galwyd yn wrthwynebwyr cydwybodol. Roeddent yn gwrthod lladd pobl eraill. Cydnabyddwyd eu hawl i wrthod lladd ym Mhrydain, ond dioddefodd llawer o'r gwrthwynebwyr cydwybodol hyn oherwydd eu cred mewn heddwch a dulliau didrais. Anfonwyd nifer i garchar, a chafodd rhai eu poenydio. Galwyd nifer yn llwfrgwn ac ni chawsant swydd byth wedyn. Byddai eu teuluoedd a'u ffrindiau yn cael eu bygwth. Mae'n cymryd dewrder aruthrol i beidio â throi at drais pan gewch eich galw yn llwfrgi a bradwr. Mae'r gofeb garreg hon yn Sgwâr Tavistock, Llundain yn cydnabod y gwrthwynebwyr cydwybodol. Y geirau arni yw "I bawb a sefydlodd ac sy'n cynnal yr hawl i wrthod lladd. Mae eu gweledigaeth a'u dewrder yn rhoi gobaiith i ni".

□ Sleid 10: Cerflun o Sadako a choeden geirios

Cofeb yw hon i Sadako Sasaki. Merch 12 mlwydd oedd Sadako a fu farw o ganlyniad i'r ymbelydredd a ryddhawyd pan ollyngwyd bom atomig ar ei chartref yn ninas Hiroshima yn Siapan, a hithau ond dwy flwydd oed. Casglwyd yr arian ar gyfer y cerflun gan blant ysgol ar hyd a lled Siapan. Dyma'r geiriau a ysgrifennwyd ar y cerflun o Sadako, "Dyma ein cri. Dyma ein gweddi. Creu heddwch yn ein byd."

Defnyddiwyd hadau o goed ceirios yn Hiroshima i blannu y goeden geirios hon yn Sgwâr Tavistock, Llundain. Cafodd ei phlannu er cof am y miloedd a laddwyd pan ollyngwyd y bom niwclear cyntaf mewn rhyfel.

Holwch y plant: A all unrhyw un feddwl am rywbeth arall mae pobl yn ei wneud er mwyn cofio'r rhai a gollwyd mewn rhyfel? Rhywbeth a wisgir o amgylch Dydd y Cofio - Tachwedd 11?

□ Sleid 11: Y pabi coch

Dangoswch lun o babi coch. Gofynnwch i'r plant a ydynt yn gwybod beth mae'r pabi coch yn ei gynrychioli? Daeth yn symbol o'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf gan fod y tir ar feysydd y gad wedi rhoi amodau delfrydol i'r blodau dyfu. Oes rhywun yn gwybod am babi o liw gwahanol?

□ Sleid 12: Y pabi gwyn

Mae pabi arall – y pabi gwyn. A oes unrhyw un yn gwybod beth mae'r pabi gwyn yn ei gynrychioli? Mae'r bobl sy'n gwisgo'r pabi gwyn yn gwneud hynny gan eu bod yn gwrthod rhyfel fel modd o ddatrys problemau rhwng pobloedd, ac am eu bod yn galw am ymrwymiad i weithio er mwyn hyrwyddo heddwch.

Mae logo'r sefydliad 'Cymru dros heddwch' yn cynnwys y pabi coch a'r pabi gwyn.

□ Sleid 13: Y pabi porffor

Dangoswch y pabi porffor. A oes rhywun yn gwybod beth mae hwn yn ei gynrychioli? Mae rhai pobl yn gwisgo y pabi porffor er mwyn cofio'r anifeiliaid a gollwyd mewn rhyfel? Mae'r gofeb hon yn deyrnged i'r holl anifeiliaid a ddiodesfodd ac a fu farw yn rhyfeloedd ac ymrafaelion yr ugeinfed ganrif. Mae'r arysgrif bach ar y gofeb yn nodi'n syml "Nid oedd dewis ganddynt."

4. Casgliad

□ Sleid 14: Sut y byddwch chi yn cofio?

Mae Dydd y Cofio yn ddiwrnod trist, ond mae hefyd yn ddiwrnod o obaith – gobaiith am fyd gwell, mwy heddychlon i bawb. Mae rhai pobl yn gwisgo mwy nag un o'r pabau hyn. Mae i'fyny i chi i benderfynu pa un, os o gwbl, y dewiswch wisgo. Beth sy'n bwysig yw ein bod yn cofio y llw dioddefwyr mewn rhyfel, a'n bod gyda'n gilydd yn ceisio adeiladu byd heb ryfel. Gofynnwch i'r plant ymuno â chi mewn dwy funud o dawelwch.

Gweithgareddau pellach ac adnoddau

- Trafodwch gyda'ch dosbarth pwy a beth mewn rhyfel y dylid eu cofio. Dyluniwch a gwnewch eich pabi eich hun, symbol o heddwch neu gofeb gan ddefnyddio clai ar gyfer modelu.
- Archebwch babau gwyn i'ch ysgol a dysgwch fwy am wrthwynebwyr cydwybodol o'r Peace Pledge Union (PPU): www.ppu.org.uk.
- Dysgwch fwy am y pabi porffor a'r anifeiliaid a ddiodesfodd mewn rhyfel. http://animalaid.org.uk/h/n/CAMPAIGN_S/living//2256//
- Dysgwch fwy am y dewisiadau gwahanol a wnaeth pobl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan ddefnyddio *Conscience: A World War I critical thinking project* <http://old.quaker.org.uk/conscience-and-conviction>
- I ddysgu mwy am Gymu dros Heddwch ewch i www.walesforpeace.org